Cymru
National Day Nurseries Association

# Y dechrau gorau i blant yng Nghymru



# Blaenoriaethau cyntaf Llywodraeth nesaf Cymru

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru:

1. **Gynnal adolygiad cenedlaethol o ofal plant a ariennir yng Nghymru sy'n:**
   - Sicrhau bod y cyllid yn talu costau darparu – yn codi yn unol â chwyddiant, codiadau cyflog statudol ac enillion cyfartalog
   - Sicrhau bod cyllid ADY yn ddigonol i ddiwallu anghenion unigol plant
   - Darparu dangosyddion cyllid tymor hir er mwyn rhoi sicrwydd i ddarparwyr.
2. **Atal niwed i ddarparwyr gofal plant sy'n bodoli eisoes drwy:**
   - Sicrhau bod cyllidebau cyfalaf y dyfodol ar gyfer darpariaethau gofal plant newydd yn gofyn am asesiadau effaith ar ddarparwyr presennol, gan edrych ar leoedd gwag, rhestrau aros a chapasiti
   - Gydnabod yr ymrwymiad i'r Gymraeg ymysg darparwyr gofal plant presennol er mwyn osgoi dadleoli lleoedd plant yn ddiangen.
3. **Gweithredu system flaengar gydag elfen o ofal plant cynhwysol, wedi'i ariannu'n llawn a chefnogaeth wedi'i thargedu i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Dylai'r system:**
   - Gael ei symleiddio nid dim ond ei ychwanegu at gynigion a ariennir sy'n bodoli eisoes
   - Gael gofynion cenedlaethol a chanllawiau eglur i sicrhau cysondeb ar draws yr holl awdurdodau lleol
   - Unioni'r holl raglenni darparu gofal plant ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Blynyddoedd Cynnar wedi ei selio ar dystiolaeth.
4. **Datblygu strategaeth gweithlu wedi ei ariannu'n llawn fydd yn:**
   - Ymrwymo i gyfraddau ariannu sy'n caniatáu i ymarferwyr gael eu talu ar gyfradd deg a chystadleuol
   - Sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer ôl-lenwi oriau staff ar gyfer gofynion hyfforddi ychwanegol
   - Adolygu'r hyblygrwydd sydd ar gael i leoliadau ddefnyddio barn broffesiynol ynglŷn â 'gweithio tuag at' niferoedd staff cymwys
   - Darparu cynlluniau cyflogaeth â chymorth i ehangu'r 'bibell' ar gyfer staff cymwys
   - Cefnogi darparwyr ac ymarferwyr unigol gyda'r sgiliau, yr hyfforddiant a'r hyder i fodloni'r Cynnig Gweithredol a chyflawni o dan Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru.



**Rydym yn galw ar bob plaid i roi plant wrth wraidd unrhyw bolisi yn y dyfodol ac i fynd i'r afael â'r heriau cyfredol o ran darparu gofal plant wedi'i ariannu, gofal plentyndod cynnar, chwarae a dysgu o ansawdd uchel. Rhaid costio unrhyw addewid i ehangu'r cynnig presennol a ariennir yn llawn. Rhaid dyrannu cyllid, ei glustnodi, a datblygu'r polisi mewn ymgynghoriad llawn â'r sector i sicrhau bod cynigion yn realistig ac yn fforddiadwy. Rhaid cynnal asesiadau trylwyr i werthuso'r capasiti ar gyfer unrhyw ehangu er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y sector.**



# Cyflwyniad

**Y National Day Nurseries Association (NDNA) yw'r elusen genedlaethol sy'n cynrychioli meithrinfeydd plant preifat, gwirfoddol ac annibynnol (PVI) ledled y DU. Ni yw llais annibynnol y sector meithrinfeydd sydd â 24,000 o blant, rhan annatod o fywydau mwy na miliwn o blant ifanc a'u teuluoedd.**

*Ein gweledigaeth fel elusen yw gweld pob plentyn a theulu yn ffynnu trwy wasanaethau sy'n darparu gofal plentyndod cynnar, chwarae a dysgu rhagorol (ECPLC). Ein cenhadaeth yw arwain a grymuso'r sector fel bod meithrinfeydd a'r gweithlu blynyddoedd cynnar yn darparu addysg a gofal cynaliadwy o ansawdd uchel. Yr ethos y tu ôl i weledigaeth a chenhadaeth elusennol NDNA yw cefnogi rhagoriaeth ymhlith y gweithlu blynyddoedd cynnar, a hybu ansawdd a chynaliadwyedd mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.*

*Credwn fod plant a theuluoedd wrth wraidd sector blynyddoedd cynnar cryf sy'n cefnogi cymunedau cynaliadwy.*






Mae'r maniffesto hwn yn nodi blaenoriaethau'r sector ar gyfer y llywodraeth nesaf. Er mwyn rhoi'r dechrau gorau i blant yng Nghymru, mae angen i ni ganolbwyntio ar system sy'n:

- **Gweithio i blant, teuluoedd a darparwyr**
- **Cefnogi teuluoedd ym mhob cymuned**
- **Darparu profiadau cynnar ysbrydoledig.**

Mae ymchwil yn dangos yn gyson bod addysg a gofal cynnar o ansawdd uchel yn gwella canlyniadau i blant yn y tymor hir <https://www.llyw.cymru/chwarae-dysgu-gofal-plentyndod-cynnar>. Mae ymennydd plant yn datblygu cysylltiadau'n gyflymach yn eu pum mlynedd gyntaf nag ar unrhyw adeg arall yn eu bywydau - mae hyd at 90% o ddatblygiad ymennydd plentyn yn digwydd erbyn iddynt fod yn bump oed. Mae tystiolaeth yn dangos bod Gofal Blynyddoedd Cynnar, Chwarae a Dysgu (ECPLC) o ansawdd uchel yn arbennig o fuddiol i'r plant mwyaf difreintiedig.



# Prif Egwyddorion

## Mae NDNA Cymru yn galw am dirwedd gofal plant wedi'i ariannu a pholisi Gofal Blynyddoedd Cynnar, Chwarae a Dysgu sy'n:

### 1. Gweithio i blant, teuluoedd a darparwyr

Golyga hyn gymryd **agwedd blentyn-ganolog** gan sicrhau bod holl amgylchedd Gofal Plant wedi eu siapio o amgylch anghenion, hawliau a llesiant plant. Mae hyn angen **ariannu cynaliadwy** i sicrhau bod cost o ddarparu lleoedd gofal plant o ansawdd uchel, wedi'u hariannu ac nad yw darparwyr yn gweithredu ar golled neu'n wynebu cau.

### 2. Cefnogi teuluoedd ym mhob cymuned

Er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau Gofal Blynyddoedd Cynnar, Chwarae a Dysgu mewn lle sy'n cyfarfod anghenion teuluoedd a phlant unigol, rydym angen gweld **darpariaethau cynhwysol ac amrywiol**. Mae hyn yn golygu economi gymysg o ddarparwyr gofal plant sy'n diwallu anghenion amrywiol a chyfnewidiol teuluoedd ledled Cymru.

Rhaid i'r system **osgoi dadleoli darparwyr presennol** a bod yn barod ar gyfer y dyfodol gyda chynlluniau hirdymor i gynnal argaeledd ac ansawdd lleoedd gofal plant. Mae cyflawni hyn yn gofyn am degwch a chysondeb ledled Cymru, yn enwedig o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

### 3. Yn darparu profiadau cynnar ysbrydoledig

Er mwyn sicrhau'r dechrau gorau i blant, rhaid i unrhyw system fod wedi'i seilio ar ddulliau sy'n **seiliedig ar dystiolaeth o ddatblygiad plant** yn y sector gofal plant a chwarae wedi'i reoleiddio. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu polisïau gofal plant wedi'u hariannu sy'n cyd-fynd yn agos â fframwaith Gofal Blynyddoedd Cynnar, Chwarae a Dysgu

Y ffactor sy'n dylanwadu mwyaf ar brofiadau plant o'r Gofal Blynyddoedd Cynnar, Chwarae a Dysgu yw'r oedolion yn y lleoliadau. Mae angen i ni weld buddsoddiad mewn **gweithlu medrus a phroffesiynol**. Mae hyn yn golygu cynyddu'r cysylltiadau â chyfleoedd dysgu proffesiynol a'r cyllid sydd ei angen i **sicrhau gweithlu sy'n cael eu gwerthfawrogi**, sy'n cael eu parchu am y rôl y maent yn ei chwarae ym mywydau plant a'r economi sylfaenol.



# Heriau i'r system gyfredol

## Nid yw cyfraddau ariannu yn talu costau pob darparwr yn y sector

Mae cymysgedd o ddarparwyr gofal plant yn nhirwedd y blynyddoedd cynnar yng Nghymru sydd â chostau darparu gwahanol. O warchodwyr plant, lleoliadau sesiynol a Chylchoedd Meithrin i feithrinfeydd dydd, mae gan bob un rôl i'w chwarae wrth ddarparu Gofal Blynyddoedd Cynnar, Chwarae a Dysgu o ansawdd uchel. Fodd bynnag, nid yw'r cyfraddau ariannu presennol, na chynyddwyd yn ystod tair blynedd gan fethu a chadw fyny â chostau cynyddol, yn gweithio i bob darparwr.

Yn ogystal â'r tanariannu cyffredinol hwn, nid yw lleoedd i blant ag ADY bob amser yn cael eu hariannu'n llawn. Lle nodir ADY, disgwylir i ddarparwyr ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'r plant hynny. Gallai hyn fod trwy adnoddau newydd, cefnogaeth un i un gan staff hyfforddedig neu addasiadau ffisegol i'r amgylchedd dysgu, i wneud lleoedd yn hygyrch. Mae cyllid annigonol yn gadael darparwyr a rhieni â dewisiadau anodd ynghylch a ddylent dalu'r costau hyn eu hunain neu gallai olygu bod lleoliad yn methu â diwallu anghenion plentyn.

Os nad yw cyfraddau fesul awr ar gyfer lleoedd gofal plant a ariennir yn talu cost wirioneddol y ddarpariaeth i bob plentyn a phob darparwr, yna gallai rhieni dalu'r pris - trwy gostau uwch, llai o ddewis, neu wedi eu meithrinfa yn gorfod cau.

**Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru:**

- Gynnal adolygiad cenedlaethol o ofal plant a ariennir yng Nghymru sy'n sicrhau cyfraddau tâl fesul awr sy'n cwmpasu gwir gost y ddarpariaeth ar draws gwahanol fathau o ddarpariaeth, ac sy'n cael ei adolygu a'i uwchraddio'n flynyddol
- Sicrhau bod cyfraddau ariannu yn y dyfodol yn cael eu cyfrifo gyda rhagolygon ymlaen llaw a'u bod yn cynyddu yn unol â chwyddiant, codiadau cyflog statudol cenedlaethol ac enillion cyfartalog
- Adolygu cyllid ADY i wneud yn siŵr ei fod yn ddigonol i ddiwallu anghenion unigol plant - lle bynnag y mae'r teulu'n dewis fel lleoliad blynyddoedd cynnar.



## Dadleoli gofal plant

Mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i sefydlu gofal plant newydd mewn lleoliadau a chymunedau lle nad oes angen bob amser. Yn aml, mae hyn ar safleoedd ysgolion ac yn disodli neu'n niweidio darparwyr gofal plant presennol. Mae hyn yn peryglu cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol a lleoliadau o ansawdd uchel sydd eisoes wedi eu sefydlu.

Byddai llawer o ddarparwyr blynyddoedd cynnar presennol yn anghynaladwy pe bai plant dwy i bedair oed yn symud i ddarpariaeth ysgol, gan eu gadael i ddarparu gofal plant i blant dan ddwy oed. Mae hyn oherwydd costau uwch darparu'r gofal hwn a'r addasiadau i leoliadau y byddai eu hangen.

Byddai'r dull hwn hefyd yn methu â chydnabod yr amgylcheddau unigryw y mae meithrinfeydd pwrpasol yn eu darparu. Nid oes ystyriaeth bob amser ynghylch a yw safleoedd ysgolion yn amgylcheddau gorau ar gyfer darparu gofal plant i blant dwy a thair oed.

**Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru:**

- Sicrhau bod asesiad effaith yn cael ei gynnal ar ddarpariaethau safon uchel sy'n bodoli eisoes wrth ystyried unrhyw gyllid cyfalaf i'r dyfodol ar gyfer sefydlu darpariaethau gofal plant newydd. Rhaid i'r asesiadau yma edrych ar leoedd gwag, rhestrau aros ac unrhyw gefnogaeth arall allai wneud yn fawr o'r capasiti sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau nad yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n tanseilio neu yn niweidio darparwyr sy'n bodoli eisoes
- Gydnabod yr ymrwymiad i'r Gymraeg ymysg darparwyr gofal plant drwy sicrhau bod cynyddu cyllid cyfalaf a'r asesiadau effaith yn ystyried darparwyr sy'n gweithio tuag at ddod yn ddwyieithog neu gyfrwng y Gymraeg, gan osgoi dadleoli lleoedd plant yn ddiangen.





## System ariannu

Nid yw darparwyr gofal plant yn gallu cynllunio tymor hir pan nad ydynt yn gwybod, flwyddyn ar ôl blwyddyn, beth fydd eu cyfraddau ariannu. Mae angen i ddarparwyr ddechrau cynllunio ymlaen llaw ar gyfer gosod lefelau staffio, penderfynu ar gynigion cyflog a diweddaru strwythurau ffioedd i rieni.

Mae'r system ariannu hefyd yn ddiangen o gymhleth i rieni a darparwyr. Nid yw cyllid yn dilyn y plentyn, fel y gwelwyd gyda'r anghysondeb o gyflwyno elfen gofal plant Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy oed yng Nghymru. Gall y cymhlethdodau hyn atal darparwyr rhag gwneud rhai lleoliadau gofal plant a ariennir ar gael, gweithredu fel rhwystr i rieni ac o ganlyniad, nid yw polisïau cenedlaethol o fudd cyfartal i bob plentyn.

Rhaid rhoi chwarae teg a chysondeb i bob darparwr gael cyfleoedd cyfartal i ddarparu cynigion gofal plant a ariennir.  Er enghraifft, mae rhai darparwyr yn gallu cynnig y Cynnig Gofal Plant i Gymru ond maent yn wynebu cyfyngiadau wrth ddarparu Addysg Feithrin neu leoedd Dechrau'n Deg.

**Rhaid i Lywodraeth newydd Cymru:**

- Weithredu system flaengar gydag elfen o ofal plant cynhwysol, wedi'i ariannu'n llawn, gan gefnogi pob plentyn a theulu ac sydd hefyd yn darparu cefnogaeth sydd wedi'i thargedu i'r rhai sydd ei hangen fwyaf
- Dylid symleiddio'r system hon a pheidio dim ond ychwanegu at gynigion a ariennir eisoes drwy Dechrau'n Deg, Addysg Feithrin a Chynnig Gofal Plant Cymru. Dylai Dechrau'n Deg, neu unrhyw gefnogaeth ychwanegol i blant o ardaloedd difreintiedig. Dylai gadw at yr elfennau craidd o ofal plant gwell, cefnogaeth rhianta a gwasanaethau ychwanegol sydd â'r nod o wella cyfleoedd bywyd i blant
- Mae angen i adolygiadau ariannu fabwysiadu dull mwy hirdymor i roi sicrwydd i ddarparwyr gofal plant a chydnabod gofynion gwahanol bolisïau gofal plant ac addysg feithrin a ariennir.



## Gweithlu


Mae nifer o adolygiadau wedi canfod bod gweithlu'r blynyddoedd cynnar yn teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio a'u tan-dalu. Ar yr un pryd, mae meithrinfeydd yn ei chael hi'n anodd cadw gwahaniaethau cyflog ar gyfer eu staff mwy cymwys neu fwy profiadol.

Er y gall cefnogaeth, hyfforddiant a datblygiad personol fod ar gael trwy awdurdodau lleol neu ffynonellau eraill, mae darparwyr blynyddoedd cynnar hefyd yn ei chael hi'n anodd rhyddhau staff i ymgymryd â'r rhain oherwydd cost oriau ôl-lenwi a'r llwythi gwaith y mae staff yn eu hwynebu.

Er bod diwygiadau i ofynion cymhareb staff wedi ei gwneud hi'n bosibl i feithrinfeydd gyflogi staff tra byddant yn 'gweithio tuag at' gymhwyster, nid oes gwahaniaeth rhwng ymarferydd sydd newydd ddechrau ei gymhwyster ac un sydd ar fin cymhwyso'n llawn.

**Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru:**

- Ymrwymo i gyfraddau ariannu yn y dyfodol sy'n caniatáu i ymarferwyr gael eu talu ar lefel deg a chystadleuol. Dylai cynyddiadau ariannol yn y dyfodol gynnwys cynnydd mewn enillion cyfartalog ar draws yr economi i helpu cyflogwyr i fynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog ar draws timau
- Wneud cyllid ar gael ar gyfer ôl-lenwi oriau staff pan fydd awdurdodau lleol yn gofyn am hyfforddiant staff, y tu hwnt i'r gofynion gorfodol, fel rhan o'r ddarpariaeth gofal plant a ariennir
- Sicrhau y gall darparwyr ddefnyddio eu barn broffesiynol a'u hyblygrwydd i ddewis pryd mae aelod o staff sy'n 'gweithio tuag at' gymhwyster yn ddigon gwybodus a phrofiadol i allu cael eu cyfrif yn niferoedd y staff cymwys
- Gyflwyno cynlluniau cyflogaeth â chymorth i ehangu'r 'biblinell' ar gyfer staff cymwys a denu pobl o bob cefndir i yrfa yn y blynyddoedd cynnar
- Ymrwymo i gefnogaeth barhaus i ddarparwyr ac ymarferwyr unigol mewn perthynas â llesiant staff
- Cefnogi'r gweithlu gyda'r sgiliau, yr hyfforddiant a'r hyder i gyflawni:
  - Y Cynnig Gweithredol
  - Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru; a,
  - Bodloni Anghenion Dysgu Ychwanegol.






## Rheoliadau

Does dim unioni ar y gofynion a disgwyliadau ar draws y gwahanol ffyrdd y cynigir gofal plant a ariennir, sef ; Dechrau'n Deg, Addysg Feithrin, a'r Cynnig Gofal Plant i Gymru. Er enghraifft, mae gofyniad i feithrinfeydd gyflogi aelod staff cymwys Lefel 5 er mwyn gallu darparu Dechrau'n Deg, ond nid yw hyn yr un peth ar gyfer darpariaeth arall.

Gall dirprwyo gwneud penderfyniadau i awdurdodau lleol ar wahanol gynlluniau hefyd olygu y gallai meithrinfa gael ei chymeradwyo i ddarparu Dechrau'n Deg ond nid yr Addysg Feithrin, sy'n golygu y gallai fod yn rhaid i blentyn adael meithrinfa yn dair oed, hyd yn oed pan fydd wedi ymgartrefu yno.

**Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru:**

- Sicrhau mwy o gysondeb ar draws timau awdurdodau lleol ar y gofynion i allu darparu rhaglenni fel Dechrau'n Deg ac Addysg Feithrin. Dyma'r unig ffordd i sicrhau cysondeb cenedlaethol a sicrhau cydraddoldeb i bob plentyn
- Unioni a chydgrynhoi pob rhaglen darparu gofal plant, Dechrau'n Deg, Addysg Feithrin a'r Cynnig Gofal Plant i Gymru ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Cynhyrchu canllawiau clir i sicrhau bod gan bob plentyn ledled Cymru fynediad cyfartal at Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar o ansawdd uchel waeth ble maen nhw'n cael mynediad at leoliadau blynyddoedd cynnar.





Cymru
National Day Nurseries Association

**NDNA Cymru**
3 Connaught House, Riverside Business Park,
Benarth Road, Conwy LL32 8UB
**01824 707823**
**wales@ndna.org.uk**

**National Day Nurseries Association**
**Head Office:** National Early Years Enterprise Centre,
Longbow Close, Huddersfield HD2 1GQ
**01484 407070**
**info@ndna.org.uk**

@NDNAtalk
@NDNAtalk
@NDNAtalk
facebook.com/ndna.org.uk
National Day Nurseries Association

**www.ndna.org.uk**

Company Limited by Guarantee Registered in England. Company No. 3738616 VAT No. 123353839.
NDNA is a registered charity in England and Wales (1078275) and Scotland (SCO40610)
Copyright ©NDNA™ All rights reserved 2026. Published April 2026